



Dyddiad creu: 27/01/2020  
Dyddiad cyhoeddi: 17/02/2020  
Rhif y fersiwn: V2

---

<b>Maes Gwasanaeth:</b>	Adfywio a Chynllunio
<b>Maes Gwaith:</b>	Cynllunio Strategol
<b>Manylion Cyswllt:</b>	<a href="mailto:CynllunDatblyguLleol@caerffili.gov.uk">CynllunDatblyguLleol@caerffili.gov.uk</a> ; 01443 866772
<b>Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:</b>	Cronfa Ddata Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)
<b>Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:</b>	Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn egluro sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu pan fyddwch chi'n: <ul style="list-style-type: none"><li>• Gofyn am gael gohebiaeth ynghylch y CDLI</li><li>• Cyflwyno sylwadau yn ystod gwahanol gamau proses y CDLI</li><li>• Cyflwyno safleoedd posibl i'w hystyried fel rhan o broses y CDLI</li></ul>

## Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

### Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

#### Diben y gwaith prosesu

Pan fyddwch wedi gofyn am gael gwybod am gynnydd y CDLI, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'ch gwybodaeth er mwyn eich hysbysu am bob un o'r camau allweddol yn y broses o baratoi'r cynllun.

Pan fyddwch wedi cyflwyno sylwadau mewn perthynas â phroses y CDLI neu Safleoedd Posibl, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'ch gwybodaeth wrth weinyddu'ch sylwadau ac i gysylltu â chi'n uniongyrchol mewn perthynas â hwy.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn prosesu unrhyw sylwadau a wnewch fel rhan o un o'r camau ymgynghori ffurfiol ym mhroses y CDLI at ddibenion sicrhau bod eich sylwadau wedi'u hystyried yn y broses o baratoi'r cynllun. Bydd eich manylion cyswllt yn cael eu cadw i'n galluogi i roi gwybod ichi am y cynnydd drwy gydol proses y CDLI.

Ni fydd eich sylwadau llawn yn cael eu cyhoeddi ar-lein ond bydd yr holl sylwadau sy'n dod i law yn agored i'r cyhoedd eu harchwilio yn Swyddfeydd y Cyngor a gellir rhyddhau copïau o'ch sylwadau i drydydd partïon ar gais. Bydd eich manylion cyswllt yn cael eu dileu mewn unrhyw gopïau o'r ffeiliau y gellir eu gweld yn gyhoeddus.

#### Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu

Mae rhwymedigaeth tasg gyhoeddus i brosesu eich gwybodaeth fel y nodir gan un neu ragor o'r canlynol:

- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a'r Rheoliadau cysylltiedig

- Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991 – a ddiwygiodd y Ddeddf uchod
- Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 – a ddiwygiodd Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
- Deddf Cynllunio 2008 – yn ategu Deddf 2004
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 – yn diwygio Deddfau 1990 a 2004
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) 2005 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Ddeddf, a amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

1e. mae angen prosesu ar gyfer cyflawni tasg a wnaed er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolwr

DS dim ond os ydych chi'n darparu data personol sensitif – h.y. iechyd, crefydd, credoau gwleidyddol, ac ati – y bydd y paragraff canlynol yn berthnasol.

Er mwyn i brosesu data personol sensitif fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 9, a amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

Deddf Diogelu Data 2018 - Atodlen 1 / Rhan 2

6 (1) Cyflawnir yr amod hwn os yw'r brosesu-

(a) (a) Yn angenrheidiol at ddiben a restrir yn is-baragraff (2), a

(b) (b) Yn angenrheidiol oherwydd rhesymau o fudd sylweddol y cyhoedd.

(2) Y dibenion hynny yw -

(a) ymarfer swyddogaeth a roddwyd i berson trwy ddeddfiad neu reol gyfreithiol;

(b) ymarfer swyddogaeth y Goron, Gweinidog y Goron neu adran y llywodraeth

## **Pwy fydd yn gallu cyrchu eich gwybodaeth?**

### **Manylion y Rheolydd Data a Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones

Y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data

E-bost: [DiogeluData@caerffili.gov.uk](mailto:DiogeluData@caerffili.gov.uk)

Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolyddion Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth am ragor o wybodaeth.

### **Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth**

Bydd staff yn Adran Gynllunio'r Cyngor yn cofnodi eich manylion ac unrhyw sylwadau y gwnewch yng nghronfa ddata'r CDLI, gan gynnwys eich manylion cyswllt, at ddibenion cydnabod eich sylwadau a'ch hysbysu am gamau proses baratoi'r cynllun yn y dyfodol.

Ni fydd eich sylwadau llawn yn cael eu cyhoeddi ar-lein ond bydd yr holl sylwadau sy'n dod i law yn agored i'r cyhoedd eu harchwilio yn Swyddfeydd y Cyngor a gellir rhyddhau copïau o'ch sylwadau i drydydd partïon ar gais. Bydd eich manylion cyswllt yn cael eu dileu mewn unrhyw gopïau o'r ffeiliau y gellir eu gweld yn gyhoeddus.

Bydd barn pawb sydd wedi ymateb yn cael eu coladu mewn adroddiad ymgynghori a fydd yn cael ei gyhoeddi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Gall hyn gynnwys rhifau a roddir i'r rhai sy'n cyflwyno sylwadau, ond nid enwau na manylion cyswllt.

Bydd manylion safleoedd posibl yn cael eu cylchredeg i randdeiliaid mewnol ac allanol er mwyn caniatáu iddynt gael eu hasesu fel rhan o broses y CDLI. Ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei chynnwys fel rhan o hyn.

Bydd copïau llawn o'r holl sylwadau yn cael eu darparu i'r Arolygiaeth Gynllunio fel rhan o'r Archwiliad o'r CDLI a bydd yr Arolygydd Cynllunio a benodir i archwilio'r cynllun, drwy ei Swyddog Rhaglen, yn cysylltu â'r holl bobl a roddodd sylwadau i benderfynu pwy fydd yn cymryd rhan yn yr Archwiliad o'r CDLI.

### **Ceisiadau am wybodaeth**

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Diogelu Data 1998.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## **Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?**

### **Manylion am y cyfnod cadw**

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Bydd eich manylion cyswllt yn aros yn y gronfa ddata ymgynghori nes bydd CDLI yn y dyfodol yn cael ei baratoi, pan fyddwn yn cysylltu â chi i'ch cynghori ar hyn ac yn gofyn a ydych am aros ar y gronfa ddata ymgynghori. Bydd sylwadau a wneir mewn perthynas â'r CDLI yn cael eu cadw nes bydd y CDLI y maent yn ymwneud ag ef wedi'i ddisodli drwy fabwysiadu CDLI arall.

## **Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwynion)**

### **Eich hawliau o dan y Ddeddf Diogelu Data**

Mae'r ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar wefan y Cyngor: [Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun \(SAR\)](#)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu.
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu

- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)

Er mwyn arfer eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

### **Y Weithdrefn Gwyno**

Os ydych yn anhapus gyda'r ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn trin eich data, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth a fanylir ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich materion.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Am ragor o wybodaeth am y broses gwyno, dilynwch y ddolen hon.

<https://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb>

---

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

---

## Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Pan fyddwch wedi gofyn am gael gwybod am gynnydd y CDLI, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'ch gwybodaeth er mwyn eich hysbysu am bob un o'r camau allweddol yn y broses o baratoi'r cynllun.

Pan fyddwch wedi cyflwyno sylwadau mewn perthynas â phroses y CDLI neu Safleoedd Posibl, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'ch gwybodaeth wrth weinyddu'ch sylwadau ac i gysylltu â chi'n uniongyrchol mewn perthynas â hwy.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn prosesu unrhyw sylwadau a wnewch fel rhan o un o'r camau ymgynghori ffurfiol ym mhroses y CDLI at ddibenion sicrhau bod eich sylwadau wedi'u hystyried yn y broses o baratoi'r cynllun. Bydd eich manylion cyswllt yn cael eu cadw i'n galluogi i roi gwybod ichi am y cynnydd drwy gydol proses y CDLI.

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'ch gwybodaeth yw bod angen ei wneud ar gyfer cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd.

Bydd staff yn Adran Gynllunio'r Cyngor yn cofnodi eich manylion ac unrhyw sylwadau y gwnewch yng nghronfa ddata'r CDLI, gan gynnwys eich manylion cyswllt, at ddibenion cydnabod eich sylwadau a'ch hysbysu am gamau proses baratoi'r cynllun yn y dyfodol.

Ni fydd eich sylwadau llawn yn cael eu cyhoeddi ar-lein ond bydd yr holl sylwadau sy'n dod i law yn agored i'r cyhoedd eu harchwilio yn Swyddfeydd y Cyngor a gellir rhyddhau copïau o'ch sylwadau i drydydd partïon ar gais. Bydd eich manylion cyswllt yn cael eu dileu mewn unrhyw gopïau o'r ffeiliau y gellir eu gweld yn gyhoeddus.

Bydd barn pawb sydd wedi ymateb yn cael eu coladu mewn adroddiad ymgynghori a fydd yn cael ei gyhoeddi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Gall hyn gynnwys rhifau a roddir i'r rhai sy'n cyflwyno sylwadau, ond nid enwau na manylion cyswllt.

Bydd manylion safleoedd posibl yn cael eu cylchredeg i randdeiliaid mewnol ac allanol er mwyn caniatáu iddynt gael eu hasesu fel rhan o broses y CDLI. Ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei chynnwys fel rhan o hyn.

Bydd copïau llawn o'r holl sylwadau yn cael eu darparu i'r Arolygiaeth Gynllunio fel rhan o'r Archwiliad o'r CDLI a bydd yr Arolygydd Cynllunio a benodir i archwilio'r cynllun, drwy ei Swyddog Rhaglen, yn cysylltu â'r holl bobl a roddodd sylwadau i benderfynu pwy fydd yn cymryd rhan yn yr Archwiliad o'r CDLI.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth gan gynnwys yr hawl i wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae'ch gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i brosesu'ch gwybodaeth a'ch hawliau, cliciwch ar y ddolen ganlynol: <https://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb>